***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 26. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 7

# PARTNERIAETHAU

## RHAN 5

## TRAFODIADAU SY'N YMWNEUD Â THROSGLWYDDIADAU O BARTNERIAETH

*Cyfranddaliad yn y bartneriaeth sydd i'w briodoli i bartner cyfatebol: dyddiad yr oedd trosglwyddiad yn cael effaith cyn 20 Hydref 2003*

26 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys at ddibenion paragraff 22 (gweler Cam 4) pan fo'r dyddiad yr oedd trosglwyddiad y buddiant trethadwy perthnasol i'r bartneriaeth yn cael effaith cyn 20 Hydref 2003.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae'r cyfranddaliad yn y bartneriaeth sydd i'w briodoli i bartner cyfatebol i'w bennu fel a ganlyn—

*Cam 1*

Canfod cyfranddaliad gwirioneddol y partner yn y bartneriaeth ar y dyddiad perthnasol.

Y dyddiad perthnasol—

(a) os oedd y partner yn bartner ar 19 Hydref 2003, yw'r dyddiad hwnnw;

(b) os daeth y partner yn bartner ar ôl y dyddiad hwnnw, yw'r dyddiad y daeth y partner yn bartner.

*Cam 2*

Ychwanegu at y cyfranddaliad hwnnw yn y bartneriaeth unrhyw gynnydd yng nghyfranddaliad y partner yn y bartneriaeth—

(a) sy'n digwydd yn y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad perthnasol ac sy'n dod i ben yn union cyn y trafodiad y mae paragraff 22 yn gymwys iddo, a

(b) sy'n cyfrif at y diben hwn (gweler is-baragraff (5)).

Y canlyniad yw'r cyfranddaliad uwch yn y bartneriaeth.

*Cam 3*

Didynnu o'r cyfranddaliad uwch yn y bartneriaeth unrhyw ostyngiadau yng nghyfranddaliad y partner yn y bartneriaeth sy'n digwydd yn y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad perthnasol ac sy'n dod i ben yn union cyn y trafodiad y mae paragraff 22 yn gymwys iddo.

Y canlyniad yw'r cyfranddaliad yn y bartneriaeth sydd i'w briodoli i'r partner.

(3) Os effaith cymhwyso Cam 3 fyddai gostwng y cyfranddaliad yn y bartneriaeth sydd i'w briodoli i'r partner islaw sero, y cyfranddaliad yn y bartneriaeth sydd i'w briodoli i'r partner yw sero.

(4) Os peidiodd y partner â bod yn bartner cyn 19 Hydref 2003, y cyfranddaliad yn y bartneriaeth sydd i'w briodoli i'r partner yw sero.

(5) Nid yw cynnydd yn cyfrif at ddibenion Cam 2 onid yw'r offeryn a oedd yn rhoi effaith i'r trosglwyddiad wedi ei stampio â threth stamp ad valorem.

(6) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 27 y buddiant trethadwy perthnasol—

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 26. (See end of Document for details)*

(a) yw'r buddiant trethadwy sy'n peidio â bod yn eiddo'r bartneriaeth o ganlyniad i'r trafodiad y mae paragraff 22 yn gymwys iddo, neu

(b) os creu buddiant trethadwy yw'r trafodiad y mae paragraff 22 yn gymwys iddo, yw'r buddiant trethadwy y crëir y buddiant hwnnw ohono.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 7 para. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 7 para. 26 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 26.